

Amgueddfa Cymru

Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd

Gosod y Dinesydd yn y Canol

MYNEGAI

1.	Cefndir	3
2.	Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd	7
2.1	Diben y Polisi	7
2.2	Gwerthoedd ac Egwyddorion Moesegol	7
2.3	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	9
2.4	Dulliau o Ymgysylltu â'r Cyhoedd	10
2.5	Cefnogi Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn Amgueddfa Cymru	23

Ers sefydlu Amgueddfa Cymru drwy Siarter Frenhinol ganrif yn ôl ym 1907, mae wedi dal casgliadau dan ymddiried ar ran pobl Cymru. Fel perchnogion yr Amgueddfeydd a'r Casgliadau hyn, mae pobl Cymru yn cael trafod gyda ni sut i ofalu amdanynt, eu defnyddio a'u datblygu. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan sylfaenol o ddulliau gweithredu'r Amgueddfa, ac mae'n darparu cyddestun sy'n parhau i dyfu ar gyfer ystyried a gwerthuso'n gwaith. Mae rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn proses gyd-gefnogol lle mae pob safbwynt yn helpu i gyfrannu at ddealltwriaeth gyffredin ac at newid.

Yn 2005/06, cyhoeddodd Amgueddfa Cymru **Y Weledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol**, yn dilyn dwy flynedd o ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Yn sgil y Weledigaeth hon, mae'r Amgueddfa yn ymrwymo i ddatblygu cysylltiadau â chynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, ac i greu mwy o gyfleoedd i ymwelwyr a defnyddwyr presennol drwy ymateb yn fwy cadarnhaol i'w hanghenion. Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo'n benodol i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn tri maes blaenoriaeth:

Canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd ... drwy ddysgu gan ein hymwelwyr

Dysgu drwy rannu ... drwy ganfod ffyrdd o groesawu ac ymgysylltu â phobl nad ydynt yn ymweld â'n hamgueddfeydd ar hyn o bryd;

Tyfu drwy ddysgu ... drwy gymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau meincnodi gyda'n partneriaid, rhanddeiliaid a chyrff tebyg i ni er mwyn datblygu ein harferion proffesiynol ymhellach a gwella ansawdd ein hamgueddfeydd i'r gweithiwr ac i'r ymwelydd.

Yn ogystal, bydd rhaglen strwythuredig a phwrpasol o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn helpu i wireddu'r datblygiadau a nodir ym mhedwar maes blaenoriaeth arall y Weledigaeth:

Creu amgueddfeydd byw ... lle mae hanes y casgliadau yn fwy eglur, a'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio posibiliadau amrywiol ar gyfer y dyfodol

Datblygu casgliadau llewyrchus ... sy'n cael eu defnyddio'n dda, eu cadw'n dda ac sy'n dal i dyfu

Cyfathrebu ... fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol

Datblygu ein hadnoddau ... fel bod gennym sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Yn 2009 aethom ati i greu Map Gweledigaeth a oedd yn pennu ein blaenoriaethau ar draws rhaglen waith tair blynedd – 2009/12-2011/12. Caiff hwn ei adolygu bob blwyddyn ac mae'r Map Gweledigaeth ar gyfer 2010/11-

2012/13 yn defnyddio'r agweddau canlynol a deg amcan craidd i bennu'r cynllun strategol:

Pobl Cymru

- Byddwn yn datblygu ein gofodau amgueddfa gyda'r gorau yn y byd i ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- Bydd gennym enw da rhyngwladol

Cynrychioli Cymru

- Byddwn yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd blaenoriaeth diffiniedig
- Byddwn yn darparu casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol gyda'r gorau yn y byd
- Byddwn yn adrodd storïau perthnasol, ystyrlon a chyfoethog er mwyn cyfleu casgliadau ac atgofion cyffredin

Gwella ein perfformiad

- Byddwn yn ehangu partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol
- Byddwn yn cynnal ac yn datblygu doniau, sgiliau proffesiynol a galluedd craidd ymysg ein staff
- Byddwn yn cyflwyno dulliau rhithwir a chyfryngau newydd

Llwyddiant Ariannol

- Byddwn yn argymhell cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol
- Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu strategol a masnachol wrth ddatblygu a dyrannu adnoddau.

O'r cychwyn cyntaf, cafodd ethos ymgynghori ei adlewyrchu yn y Siarter; gweithredai Llys Amgueddfa Cymru, a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1907, fel corff llywodraethu ac ymgynghori ac roedd amrywiaeth eang o randdeiliaid ymysg ei haelodau. Yn 2005/06, gwelwyd cynnydd yng ngwaith Amgueddfa Cymru i baratoi cynigion i ddiwygio trefn lywodraethu'r Amgueddfa er mwyn adlewyrchu datganoli gwleidyddol a datblygiadau eraill. Roedd y broses hon yn datblygu gwaith y Weledigaeth ac argymhellion yr adolygiad pum mlynedd a gynhaliwyd ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyflwynwyd deiseb i'r Cyfrin Gyngor am Siarter Frenhinol Atodol a fyddai'n cynnwys y newidiadau hyn ynghyd â mesurau moderneiddio eraill – gan gynnwys cyfeiriad at gynllun ymgynghori i ddisodli'r Llys. Cymeradwywyd y Siarter ddiwygiedig ym mis Medi 2006. Dyma'r cynllun ymgynghori amlinellol a gynigiwyd i ddisodli'r Llys ar y pryd:

- Dau gyfarfod agored bob blwyddyn, gyda llawer o gyhoeddusrwydd a marchnata brwd
- Cronfa ddata ymgynghori
- Fforymau pwnc a diddordeb arbennig a fyddai'n esblygu ac yn newid o dro i dro;
- Fforymau *ad hoc* ar faterion penodol a allai newid o dro i dro ac esblygu hefyd
- Cyfarfodydd rheolaidd â Phwyllgor Diwylliant y Cynulliad a chyrff eraill;
- Cyswllt rheolaidd â sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a gwyddonol sydd â diddordebau cysylltiedig, yn lleol a chenedlaethol
- Strwythur ffurfiol i adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (y Cyngor).

Mae Statudau diwygiedig yr Amgueddfa'n cynnwys cyfeiriad at Ddyletswydd yr Ymddiriedolwyr i ymgynghori:

- (1) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn:
 - (a) mabwysiadu cynllun sy'n pennu trefniadau i alluogi'r Ymddiriedolwyr i:
 - (i) ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd a chyrff sydd â diddordeb mewn hyrwyddo amcanion yr Amgueddfa
 - (ii) canfod pobl sy'n gymwys ac yn barod i roi cymorth a chynghor i'r Amgueddfa wrth hyrwyddo amcanion yr Amgueddfa
 - (b) gweithredu'r cynllun y cyfeirir ato yn yr is-baragraff blaenorol ac adolygu ei delerau'n rheolaidd, gan newid y cyfryw gynllun o bryd i'w gilydd os oes angen.
- (2) O ran y ddyletswydd i ymgynghori neu fel arall, caiff yr Ymddiriedolwyr sefydlu un neu ragor o gyrff cynghori neu ymgynghori ar gyfer yr Amgueddfa. Swyddogaeth y cyfryw gyrff yw rhoi cymorth a chynghor i'r Ymddiriedolwyr ynglŷn â datblygu'r Amgueddfa yn y dyfodol, a chaiff yr Ymddiriedolwyr bennu a diwygio'r rheolau a'r pwerau sy'n rheoli'r cyfryw gyrff o bryd i'w gilydd a'u diddymu yn y pen draw. Ni all aelod o gorff fod yn gyfrifol am faterion yr Amgueddfa. Pwerau argymhell yn unig fydd gan y cyrff hyn a'u haelodau.

Er ei bod yn Gorff â Siarter Frenhinol ac yn Elusen Gofrestredig, mae Amgueddfa Cymru hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC), ac felly wedi ymrwymo i gefnogi Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i disgrifir ar hyn o bryd yn *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*. Yn bennaf oll, mae Amgueddfa Cymru'n cefnogi ac yn cyfrannu at agenda *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth y Cynulliad, sy'n hyrwyddo cyfranogi ac ymgysylltu gweithredol rhwng y cyhoedd a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, ymysg pethau eraill.

Yn ogystal, derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Adroddiad Beecham ym mis Gorffennaf 2006 fel rhan o'r cynllun gweithredu i roi strategaeth *Creu'r Cysylltiadau* ar waith er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nododd yr adroddiad fod ymgysylltu â'r cyhoedd/dinasyddion yn ffactor pwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cyrff nawdd allanol mawr, fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau a noddwyr corfforaethol bellach yn nodi bod y bwriad i ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhan annatod o geisiadau am nawdd. Yn wir, mae hyn yn aml yn rhagofyniad cyn rhoi nawdd. Felly, yn ogystal â phenderfyniad Amgueddfa Cymru i weithredu Cynllun Ymgynghori, mae asiantaethau allanol hefyd yn ymateb i orchmynion cymdeithas gyfoes. Nod y cynlluniau hyn yw ceisio sicrhau atebolrwydd democrataidd, a chreu cymunedau cynaliadwy ar y cyd ag eraill drwy ddinasyddiaeth weithgar.

Diben y Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd a gyflwynir yma yw rhoi rhywfaint o fanylion a sylwedd ynghylch y dulliau y mae Amgueddfa Cymru'n eu defnyddio i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf priodol a buddiol gan y cyhoedd.

Adran 2 Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd

2.1 Diben y Polisi

Nod y Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd hwn yw pennu ffiniau pob agwedd ar waith cynlluniedig a chyfranogol Amgueddfa Cymru ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n amlinellu'r gwerthoedd a'r egwyddorion y byddwn ni'n glynu wrthynt.

2.2 Gwerthoedd ac Egwyddorion Moesegol

Mae Amgueddfa Cymru yn rhagweithiol yn ei phenderfyniad i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy drafodaeth deg a chyfranogol sy'n fuddiol i bawb. Mae'n cydnabod y canlynol:

- Mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn ymwneud â gwaith Amgueddfa Cymru sy'n effeithio ar eu bywydau
- Gall rhanddeiliaid Amgueddfa Cymru ychwanegu gwerth anferth at ddatblygu a gweithredu ein Gweledigaeth
- Dylai'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, a gynhelir yn unol â'r Cynllun Ymgynghori, arwain at newid er gwell yn Amgueddfa Cymru.

Bydd Amgueddfa Cymru'n dilyn y prif egwyddorion a'r egwyddorion ymchwil moesegol sy'n cael eu cydnabod fel arfer da ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau eu bod yn cael eu dilyn ym mhob rhan o'n gwaith:

Gwneud Gwahaniaeth

Diben ymgysylltu â'r cyhoedd yw gwneud gwahaniaeth i'r Amgueddfa a'r cyfranogwyr fel ei gilydd. Mae'n galluogi Amgueddfa Cymru i wneud penderfyniadau gwell ac i greu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o Amgueddfa Cymru a'n casgliadau ymysg cyfranogwyr. Gall hefyd ddatblygu dinasyddiaeth weithredol a gwella gwybodaeth a hyder pawb sy'n cymryd rhan.

Cynhwysiant

Bydd Amgueddfa Cymru'n cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ymgysylltu ac yn annog yr holl randdeiliaid i gyfranogi os yw ffocws y project/gweithgaredd perthnasol yn effeithio arnynt neu o ddiddordeb iddynt. Bydd Amgueddfa Cymru'n sicrhau bod unigolion o gymunedau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol, sy'n cael eu tangynrychioli yng ngwaith y sefydliad ar hyn o bryd, yn cael eu cynnwys ac yn sicrhau bod grwpiau o randdeiliaid perthnasol yn cymryd rhan ar yr adeg briodol yn y broses, heb ddilyn unrhyw arferion gwahaniaethol neu ormesol. Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod cyfranogwyr yn gwybod a ydym yn dymuno ymgysylltu â nhw fel arbenigwyr unigol neu fel cynrychiolwyr cymunedol.

Hygyrchedd

Bydd Amgueddfa Cymru'n cymryd camau i leihau rhwystrau i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gynnal digwyddiadau ar adegau ac mewn llefydd priodol, darparu cludiant, cyfieithiadau ac ati, ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i

wirio canlyniadau a sicrhau bod arferion yn addas ar gyfer y cymunedau amrywiol a dargedir wrth ymgysylltu.

Adnoddau

Cyn cychwyn unrhyw broiect, bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau, lle bo hynny'n briodol, fod gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o'r broses gynllunio. Bydd hefyd yn pennu'r goblygiadau o ran adnoddau gan sicrhau y gellir cwblhau unrhyw weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn drylwyr, heb danseilio'r canlyniadau neu greu teimladau o ddiffyg ymddiriedaeth a drwgdeimlad ymysg y rhai yr ydym wedi meithrin perthynas â nhw.

Parch

Bydd Amgueddfa Cymru yn cydnabod ac yn parchu'r ffaith bod unigolion yn awyddus i ymgysylltu am amrywiaeth o resymau. Beth bynnag yw eu rhesymau, ni ellir gorfodi neb i ymgysylltu, ac mae cyfranogiad yn weithred cwbl wirfoddol. Mae pawb yn arbenigwr ar eu profiad eu hunain a bydd y rhai sy'n cynllunio ac yn cynnal gweithgarwch ymgynghori bob amser yn parchu safbwyntiau eraill.

Moeseg a chydymffurfiaeth

Fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, bydd Amgueddfa Cymru'n coladu barn a safbwyntiau'r rhai sy'n mynychu'r sesiynau. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddata personol a gesglir yn ystod gweithgareddau o'r fath yn cael eu rheoli a'u defnyddio yn unol â **Deddf Diogelu Data 1998**, gan ufuddhau bob amser i egwyddorion ymchwil moesegol a gydnabyddir ym maes gwyddor gymdeithasol wrth gasglu neu ddefnyddio data. Hysbysir cyfranogwyr am y defnydd a wneir o'r wybodaeth a ddarperir ganddynt, ac ni chaiff eu manylion personol eu datgelu heb gael caniatâd ymlaen llaw. Ar adegau caiff y gweithgareddau hyn eu cynnal yng nghwmni plant a phobl ifanc; bryd hynny, byddwn yn sicrhau ein bod yn cael caniatâd rhiant/gwarchodwr cyn cysylltu ag unrhyw un o dan 16 oed.

Ar adegau penodol bydd Amgueddfa Cymru'n casglu sylwadau a gyflwynwyd yn ddienw gan y cyhoedd. Ni fydd y wybodaeth hon yn cynnwys unrhyw ddata personol a fyddai'n galluogi rhywun i adnabod yr unigolyn.

Mae **Polisi Diogelu Data** Amgueddfa Cymru ar ein gwefan.

Didwylledd, gonestrwydd ac eglurder

Bydd Amgueddfa Cymru'n pennu diben a gweledigaeth glir ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu ac yn ceisio sicrhau consensws eang drwy gynnal trafodaeth ystyrlon a chynlluniedig gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael popeth sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniadau deallus, ac yn gwerthuso'r cyngor a'r adborth a'u dosbarthu'n llawn i bawb o'r cyfranogwyr.

Annibyniaeth

Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n hyddysg yn y pwnc dan sylw, ac sydd wedi'u hyfforddi ym meysydd hwyluso ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn arwain gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd yr Amgueddfa yn defnyddio hwylusydd annibynnol os yw'r testun/dull yn gofyn am hynny, a bod digon o adnoddau ar gael.

Atebolrwydd

Bydd Amgueddfa Cymru yn pennu dibenion pob gweithgaredd ymgysylltu mewn ffordd glir a hygyrch, gan nodi'r camau a gymerir o ganlyniad i'r gweithgarwch ar ddechrau'r broses ymgysylltu, a sut a phryd y caiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl. Ar ddiwedd y broses ymgysylltu, bydd Amgueddfa Cymru yn rhoi adborth ar y canlyniadau, gan ddangos sut mae cyfranogiad rhanddeiliaid wedi llunio gweithredoedd yr Amgueddfa ac yn sicrhau bod llwybrau'n cael eu sefydlu ar gyfer gwaith dilynol, gan gynnwys adrodd am unrhyw benderfyniadau, strategaethau a/neu gynlluniau gweithredu pellach.

Mae'r Adolygiad Blynyddol a'r Adroddiad Ariannol yn ddogfennau cyhoeddus allweddol sy'n pennu gweithgareddau Amgueddfa Cymru ledled y sefydliad cyfan. Mae'r Adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n gyhoeddus i gynulleidfaoedd targed a rhanddeiliaid fel sy'n briodol.

Cynaliadwyedd

Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod cyfranogiad gweithredol yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder, ac yn cynyddu'r ymdeimlad o berchnogaeth a grym ymysg staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid.

Monitro a gwerthuso

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio dulliau monitro a gwerthuso pen blaen, ffurfiannol a chyfansymiol gydol y broses ymgynghori er mwyn sicrhau bod y broses a'r canlyniadau yn effeithiol.

2.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.3.1 Cyn pennu pa ddulliau fyddai orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid (gweler adran 2.4), cynhelir dadansoddiad o'r rhanddeiliaid i ganfod pa grwpiau y dylid ymgysylltu â hwy, sut i wneud hynny, ac ym mha drefn.

Mae'r canlynol yn grwpiau allweddol o rhanddeiliaid yr Amgueddfa:

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru** – y Gweinidog Treftadaeth a'i swyddogion, y Prif Weinidog, y Cabinet, CyMAL
- **Gwleidyddion nad ydynt yn Aelodau o Gynulliad Cymru** – Y Bwrdd Diwylliant, Aelodau'r Cynulliad o bob plaid, Aelodau Seneddol Cymru, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop
- **Prif noddwyr eraill** – Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr Undeb Ewropeaidd, y Gronfa Gelf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Caerdydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe ac Awdurdodau Lleol eraill drwy'r Dreth Tirlenwi, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cwmnïau
- **Cynghorau ymchwil** – Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau
- **Penderfynwyr** – Rheoleiddwyr, Awdurdodau Lleol, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- **Cyrff cyfatebol yng Nghymru** – y Rhaglen Partneriaethau, Cyrff Cyhoeddus eraill Llywodraeth y Cynulliad, y diwydiant twristiaeth, atyniadau eraill i ymwelwyr, sefydliadau Addysg Uwch, Ffederasiwn

Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, sefydliadau cenedlaethol eraill fel y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol

- **Cyrff cyfatebol yn y DU a thramor** – Amgueddfeydd Cenedlaethol y DU, Cyngres Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol, y Gymdeithas Amgueddfeydd, Cymdeithas y Prif Atyniadau, Cymdeithas y Dogfennau Amgueddfaol, Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau, Amgueddfeydd Cenedlaethol Tramor, UNESCO
- **Cefnogwyr a Hyrwyddwyr** – Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Pwyllgorau a Phaneli Cynghori, Noddwyr, y Bwrdd Datblygu, Cymwynaswyr, Cyfranwyr, Cyfeillion
- **Ymwelwyr a Defnyddwyr (ar y safle ac ar-lein)** – Cymunedau lleol, cyhoedd Cymru a'r DU, y Sectorau Addysg Ffurfiol ac Anffurfiol, grwpiau â diddordebau/anghenion arbennig
- **Staff** – gan gynnwys y tair undeb gydnabyddedig drwy Fforwm y Staff.

2.3.2 Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru

Bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i gydweithio ag amrywiaeth o bwyllgorau a phwyllgorau craffu fel sy'n briodol, gan gynnwys cyd-gyfarfodydd Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, Grŵp Ymgynghorol CyMAL a'r Uned Cymunedau Cynaliadwy. Yn ogystal, cynhelir Cyfarfodydd Adolygu Chwarterol gyda'r Is-adran sy'n noddi'r Amgueddfa yn CyMAL.

2.3.3 Dull Gweithredu Cymru Gyfan

Bydd Amgueddfa Cymru yn ymateb i amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth weithio ar draws pob ardal yng Nghymru fel y'u diffinnir yng Nghynllun Gofodol Llywodraeth y Cynulliad: Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, Canol Cymru, Bae Abertawe, De-ddwyrain Cymru a Hafan Sir Benfro. Bydd yr Amgueddfa yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag eraill drwy gynlluniau Cyfoeth Cymru Gyfan a Chelf Cymru Gyfan.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd gydag Awdurdodau Lleol Cymru, gan ddatblygu gwaith partneriaeth a wnaed eisoes, er enghraifft, gydag Abertawe ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Gwynedd.

2.4 Dulliau o Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r prif ddulliau a chamau gweithredu y mae Amgueddfa Cymru yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gyfranogiad yn cael eu rhestru isod. Defnyddiwyd y categorïau isod at ddibenion eglurder, ac maent yn mynegi yn syml yr hyn y gellir ei gyflawni. Gellir defnyddio'r dulliau at fwy nag un diben, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, ac er mwyn cydymffurfio ag arferion gorau, defnyddir amrywiaeth o ddulliau ar gyfer pob project.

Arsylwi ar Ymwelwyr – fel man cychwyn

Mae arsylwi ar ymwelwyr yn ddull poblogaidd o gychwyn proses ymgynghori yn aml. Mae'n ymwneud ag edrych ar ymwelwyr yn symud o gwmpas gofod/oriel/adeilad/amgueddfa. Ond ni fydd y broses hon yn dweud wrthym *pam* y mae pobl yn ymddwyn mewn ffordd benodol, ac i wneud hynny, mae angen trafod gydag ymwelwyr drwy weithgareddau grwpiau ffocws/gweithdai fel arfer.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- I ddeall sut mae ymwelwyr yn defnyddio gofodau ein hamgueddfeydd
- I gadarnhau gwaith ymchwil arall
- I lunio'r cwestiynau sydd angen eu gofyn ar ddechrau proses ymgysylltu
- I alluogi staff nad oes ganddynt brofiad o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i ennill yr hyder a'r sgiliau i gymryd rhan yn y broses a deall ei manteision

Dogfennau Ymgynghori

Un o'r dulliau mwyaf cyffredin ac eang o ymgysylltu yw defnyddio Dogfennau Ymgynghori, sy'n gosod cynigion ar gyfer y dyfodol ac yn pennu cwestiynau yn eu cylch; fe'u defnyddir yn aml ar ffurf electronig.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- Fel rhan o broses ymgysylltu, er enghraifft ar y dechrau, i gychwyn y broses, neu'n ddiweddarach i ddatblygu cynigion ac ychwanegu manylion, pan fydd modd ei ddefnyddio i hybu diddordeb mewn pwnc ac yng ngwaith Amgueddfa Cymru yn gyffredinol
- Ar gyfer ymgynghoriadau syml sy'n hawdd eu deall, ac er mwyn cael mewnbwn manwl ar bolisiau a chynigion gan randdeiliaid sy'n gymwys o safbwynt proffesiynol a thechnegol
- I gyd-fynd â'r defnydd o ddulliau cyfranogol eraill. Er bod dogfennau ymgynghori yn galluogi rhanddeiliaid i fynegi safbwynt neu farn fel arfer, nid ydynt ar eu pennau eu hunain yn meithrin ymgysylltiad rhwng rhanddeiliaid nac yn hybu perchnogaeth dros broblemau neu atebion.

Cyfarfodydd Agored a Chyhoeddus

O safbwynt ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus, mae 'cyfarfod agored' yn un y gall y cyhoedd ei fynychu fel arsylwyr. Mae hynny'n golygu na all pobl gyfrannu at drafodion y cyfarfod. I'r gwrthwyneb, gall 'cyfarfod cyhoeddus', yn ei ffurf fwyaf effeithiol, fod yn gwbl gynhwysol a chyfranogol. Rydym ni'n gwahaniaethu rhwng cyfarfod agored a chyfarfod cyhoeddus fel y canlyn:

Cyfarfodydd Agored

Mae holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a gynhelir bob chwarter ledled rhanbarthau Cymru, yn agored i'r cyhoedd. Hysbysebir y rhain yn eang er mwyn annog y cyhoedd i fynychu, a bydd rhai rhanddeiliaid penodol yn derbyn gwahoddiad. Bydd y cyhoedd yn bresennol fel arsylwyr ond nid fel cyfranogwyr a bydd cyfle naill ai yn ystod neu ar ôl y cyfarfod i'r cyhoedd gyfarfod ag Aelodau'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr yn bersonol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- Ym mhob Cyfarfod Bwrdd i alluogi'r cyhoedd i ddilyn trafodion Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Weithrediaeth mewn awyrgylch agored a thryloyw.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae cyfarfodydd cyhoeddus yn gyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol lle nad oes unrhyw rwystrau i fynediad neu ymgysylltiad cyfranogol. Hysbysebir y cyfarfodydd hyn hefyd yn dda ymysg y cyhoedd ac anfonir gwahoddiadau at grwpiau o randdeiliaid allweddol. Gellir cyflwyno un thema a phroject neu glwstwr ohonynt i gynulleidfa eang. Maent yn gyfle uniongyrchol i gynnal deialog ac i rwydweithio gyda chyfranogwyr drwy ryngweithio cyfranogol wedi'i raglennu gydol y cyfarfod.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- I alluogi'r Amgueddfa i ymgysylltu'n eang â chynulleidfa helaeth
- Pan fyddwn am ddarparu gwybodaeth i lawer o randdeiliaid ac ymgynghori â nhw
- I feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda grwpiau o randdeiliaid allweddol
- I greu diddordeb yn y wasg a'r maes cysylltiadau cyhoeddus.

Paneli Ymgysylltu â'r Cyhoedd/Arbenigol

Sefydli'r rhain ar sail diddordeb, arbenigedd academiaidd neu broffesiynol, ymlyniad, lleoliad daearyddol, cyfansoddiad demograffig, grŵp oedran ac ati, gydag amrywiaeth o grwpiau o wahanol faint yn cael eu recriwtio'n gyfartal er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys a phriodol. Gelwir paneli cyffredinol sy'n cael eu recriwtio yn Baneli Dinasyddion.

Dyma un o'r dulliau ymgynghori ac ymgysylltu mwy ffurfiol, ac fe'i defnyddir i archwilio materion yn fanwl, ac i alluogi rhanddeiliaid wneud argymhellion. Gall Amgueddfa Cymru ryngweithio â phaneli drwy gyfryngau electronig neu drwy gynnal cyfarfodydd, a gellir eu cynnal ar sail gorchwyl a gorffen, neu ofyn am eu safbwyntiau dros gyfnod hirach i fesur patrymau cyfnewidiol o ran agwedd ac ymddygiad.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- I brofi syniadau a nodi pryderon cyn ymgynghori'n fwy eang â'r rhanddeiliaid eraill
- Ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgysylltu pan fydd angen trafod materion penodol a datblygu syniadau
- I feithrin cysylltiadau â grwpiau neu unigolion, gan benodi eiriolwyr a all gyfathrebu â grwpiau ehangach o randdeiliaid
- Pan fydd hi'n bwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â materion cymhleth neu ddadleuol
- Pan fydd angen grwpiau bach er mwyn trafod materion a phryderon yn uniongyrchol a rhoi gwybodaeth gywir wrth ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau penodol
- Pan fydd safbwyntiau arbenigwyr yn hollbwysig wrth ddatblygu project neu weithgaredd
- Pan fydd hi'n bwysig cadw'r un aelodau er mwyn datblygu perthynas sy'n rhoi sylfaen i brosesau mwy hirdymor.

Gweithdai

Mae fformatau gweithdai yn hyblyg iawn a gellir eu defnyddio unwaith, neu dros gyfnod o oriau, diwrnodau, misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd. Byddant bron yn sicr o gael eu defnyddio i ategu dulliau ymgysylltu eraill.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- I gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol a dwyn ynghyd safbwyntiau amrywiol mewn un lle
- I ddwyn ynghyd yr holl randdeiliaid i benderfynu ar y cyd beth sydd angen ei drafod a'r dulliau gweithredu gofynnol
- I ddatblygu cysylltiadau a chynhwysiant gwirioneddol, ac i hwyluso prosesau gweithredu
- I weithio gyda rhanddeiliaid yn rheolaidd er mwyn helpu i ddatblygu neu ddarparu mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu strategaethau neu bolisiau. Yn hyn o beth maent yn debyg i'r paneli ymgysylltu â'r cyhoedd a ddisgrifiwyd uchod.

Grwpiau Ffocws

Defnyddir Grwpiau Ffocws i ddwyn ynghyd unigolion gwahanol sy'n debyg o ran math, e.e. aelodau o restr bost marchnata wedi'i rhannu yn ôl math (teulu, oedolion sengl, pobl â diddordeb mewn hanes natur ac ati), a gellir eu defnyddio mewn sefyllfaoedd amrywiol i dreialu deunyddiau, offer, paneli arddangos ac ati, ac i gael adborth a safbwyntiau gan grwpiau targed ar feysydd fel polisïau a chynlluniau, gweithgareddau a digwyddiadau.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- I alluogi staff i brofi i ba raddau y mae prototeipiau'n gweithio ac a yw'r 'cynnyrch' yn cael ei ddefnyddio/ei ddeall/ei ddehongli yn unol â bwriad y dylunydd
- I alluogi cyfranogwyr i fynegi eu safbwyntiau'n rhydd
- I ymgysylltu ag amrywiaeth o gyfranogwyr sy'n cynrychioli'r defnyddwyr a dargedir yn y pen draw. Gan fod y cyfranogwyr yn cael eu dewis a'u rhannu'n grwpiau yn ôl math, gellir cynnal nifer o grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr tebyg a chymharu'r canlyniadau ag adborth grwpiau eraill. Fel arfer ni fydd mwy nag 20 o gyfranogwyr a gofynnir i bawb a wahoddir gyfrannu at y drafodaeth.

Arolygon a Holiaduron

Gellir defnyddio Arolygon a Holiaduron i gasglu gwybodaeth ystadegol ac ansoddol am bynciau penodol neu i gael mwy o adborth cyffredinol. Gellir dylunio holiaduron naill ai i bobl eu llenwi eu hunain neu i'r sawl sy'n cynnal y cyfweiliad eu llenwi. Cymerir gofal i sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dull hwn:

- Pan fydd angen llawer iawn o ddata meintiol ac ansoddol
- Pan fydd angen safbwyntiau ar amrywiaeth o opsiynau posibl (drwy gwestiynau amlddewis)
- Pan fydd yn bwysig caniatáu i randdeiliaid ymateb i broses yn ddienw

- Pan fyddwn am alluogi ymatebwyr i ddefnyddio mwy nag un pwynt mynediad i gyflwyno eu sylwadau ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw.

Y Wefan, Blogiau'r We a negeseuon e-bost

Drwy'r We, Blogiau'r We, neu 'blogiau' gallwn ddarparu a derbyn sylwadau neu newyddion ar bwnc penodol. Mae blogiau'n rhan o rwydwaith cymdeithasol ehangach, ac maent yn amlwg yn gysylltiedig â'r elfen o ddatblygu perthynas sy'n gymaint rhan o ymgysylltu.

Bydd cyfathrebu ar e-bost yn hynod ddefnyddiol wrth drafod gyda rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o gyswllt personol a all fod yn hir.

Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio'r dulliau hyn:

- I ymgysylltu â llawer o randdeiliaid am gost gymharol fach
- I alluogi cyfranogwyr i rannu gwybodaeth a chynnal deialog â'i gilydd
- I gadw cysylltiad â chyfranogwyr a dosbarthu gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd
- I alluogi darllenwyr i adael sylwadau ar ffurf ryngweithiol, gan ehangu ar ffurf statig cardiau post a waliau graffiti
- Ochr yn ochr â dulliau eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd, cydnabod bod canran uchel o boblogaeth Cymru heb fynediad i'r Rhyngrwyd o hyd, ac mae'n well gan rai ddefnyddio dulliau cyfathrebu traddodiadol er bod ganddynt fynediad i'r Rhyngrwyd.

Dulliau eraill

Mae Amgueddfa Cymru yn defnyddio dulliau eraill i gasglu barn rhanddeiliaid, gan gynnwys llyfrau sylwadau, cardiau post a ffurflenni adborth. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio ac yn parhau i gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys desgiau derbynfeydd, gofodau arddangos a digwyddiadau er mwyn casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth, gadael manylion cyswllt ar gyfer rhestri postio, nodi barn ar arddangosfa, digwyddiad, gweithgaredd, neu alluogi pobl i wneud sylw. Bydd rhai cwestiynau neu ddatganiadau pwysig yn cael eu cynnwys i lywio ymatebion, er enghraifft os yw'r amgueddfa yn ceisio sicrhau deilliannau dysgu penodol. Mae dulliau eraill fel dyddiaduron fideo, lluniau, llinellau continwwm gwerth ac ati hefyd yn ddefnyddiol i gasglu gwybodaeth am ddysgu, lefelau mwynhau, datblygu sgiliau a newid ymddygiad. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r dyfodol.

Mae nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyffredinol hefyd yn rhoi cyfle i hyrwyddo ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy arferion cyfranogol. Byddwn yn parhau i ddatblygu gweithgarwch o'r fath.

Yn olaf, mae defnyddio asiantaethau ac arbenigedd allanol wrth gynnal gweithgareddau ymgynghori a phroffilio ymwelwyr yn gallu bod yn ddefnyddiol. Bydd hyn yn cefnogi ac yn ategu gwaith staff, yn amlygu agweddau gwahanol ar fethodoleg, yn datblygu ein gwaith a'n helpu i ddysgu gan eraill.

2.5 Cefnogi Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn Amgueddfa Cymru

Rydym ni'n cefnogi ein gweithwyr i ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

Cronfa ddata Ymgynghori

Mae manylion pobl sydd wedi gofyn am gael derbyn gwybodaeth gennym mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd, neu sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymgynghoriad, yn cael eu cadw ar ein cronfa ddata ganolog.

Mae'r holl ddata personol a gesglir gan Amgueddfa Cymru wrth gyflawni ei busnes arferol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Mae gweithgor mewnol yn monitro'r Gronfa ddata i sicrhau bod yr holl wybodaeth gyswllt a gedwir yn cael ei rheoli a'i defnyddio yn unol â gofynion y Ddeddf honno ac arferion Ymchwil Gymdeithasol Foesegol, fel y nodwyd uchod.

Adnoddau

Mae gennym ni lyfrgell o adnoddau cyhoeddedig ac adnoddau ar y we ar gael i staff.

Rhwydweithiau

Sefydlwyd cronfa ddata o rwydweithiau oddi mewn ac oddi allan i'r sector treftadaeth/diwylliant er mwyn nodi enghreifftiau o arferion da a gwybodaeth gyffredinol am ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Mae rhwydweithiau mewnol ar gyfer staff yn helpu i rannu arferion da a datblygu sgiliau penodol. Dyma ddwy enghraifft o'n cyfranogiad gweithredol o fewn asiantaethau allanol:

- Mae Amgueddfa Cymru yn aelod o'r Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr, sy'n ceisio bod yn 'llais astudiaethau ymwelwyr'. Disgrifir y grŵp fel 'grŵp cenedlaethol o weithwyr proffesiynol ymroddgar sy'n helpu ei gilydd i sicrhau arferion gorau yn y maes hwn. Nod y Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr yw hyrwyddo arferion gorau drwy gynrychioli barn ac arbenigedd, cymryd rhan mewn dadleuon a dylanwadu ar bolisi a strategaeth ar draws y sector diwylliannol.' Ysgrifennydd yr Amgueddfa yw Is-gadeirydd y Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr ar hyn o bryd.
- Mae Ysgrifennydd yr Amgueddfa hefyd yn aelod o Banel (Bwrdd) Cynghori Cyfranogaeth Cymru. Mae'r sefydliad hwn yn gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i ddarparu ystod o wasanaethau ymgysylltu â'r cyhoedd i sefydliadau sector cyhoeddus sydd wrthi'n datblygu rhaglenni ymgysylltu â dinasyddion.

Hyfforddi staff

Gweithredwyd rhaglen bwrpasol i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi tua 150 o staff yn ystod 2008 a 2009, gan ganolbwyntio ar gyflwyno'r sgiliau damcaniaethol ac ymarferol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hategu ymhellach gan sesiynau unigol i staff sy'n gweithio ar broiectau penodol, a thrwy ddatblygu mwy o weithdai sy'n darparu elfennau a mentrau newydd sy'n esblygu. Mae staff yn cael eu hannog i gymryd rhan

mewn digwyddiadau rhyngweithio a hyfforddi allanol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu darparu gan y Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr a Cyfranogaeth Cymru.

Elaine J. Cabuts
Ysgrifennydd yr Amgueddfa
Amgueddfa Cymru